

## DAVIES, WILLIAM (1756 - 1823), casglwr defnyddiau at ysgrifennu hanes sir Forgannwg

**Enw:** William Davies

**Dyddiad geni:** 1756

**Dyddiad marw:** 1823

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** casglwr defnyddiau at ysgrifennu hanes sir Forgannwg

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 1756, a threuliodd ei oes yn Cringell, Llanfair-juxta-Neath, hyd ei farwolaeth 21 Mawrth 1823.

Cynullodd William Davies ddefnyddiau hanes ei sir enedigol ac ysgrifennodd rai penodau. Argraffodd 'gynigiadau' at gyhoeddi ei waith yn 1803 a thrachefn yn 1810; ei fwrriad yn 1810 oedd cyhoeddi tair cyfrol pedwarplyg i gostio dwy gini y gyfrol. Eithr ni chwplaodd mo'i lafur, a bu ei lawysgrifau a'i gasgliadau yma a thraw yn Sir Forgannwg nes i amryw ohonynt ddyfod o lyfrgell [G. T. Clark](#) i'r Llyfrgell Genedlaethol ym mis Mawrth 1923, yr union adeg y dadorchuddiwyd yn Llyfrgell Rydd Castell Nedd dabled coffa canmlwyddiant marw'r hanesydd; yn 1928 daeth cyfres arall o'i ddefnyddiau i'r Llyfrgell Genedlaethol, y tro hwn o lyfrgell [John Montgomery Traherne](#) a [Lady Mansel Franklen](#).

Yr oedd William Davies yn adnabod [Edward Williams](#) ('Iolo Morganwg'), a cheir rhai pethau yn llaw [Iolo](#) yng nghasgliad Cringell. Yr oedd yn r diwylliedig; byddai'n cyfieithu barddoniaeth Gymraeg i Saesneg a Lladin, a gwelir peth o'i waith yn *The Gentleman's Magazine* ac yn *The Cambrian*, newyddiadur a gyhoeddid am flynyddoedd lawer yn Abertawe. [Gweler hefyd dan Isaac, David Lloyd](#).

### Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

*Journal of the Welsh Bibliographical Society.*, ii, 1-44

rhai o gyhoeddiadau J. M. Traherne

*Western Mail*, 10 Mawrth 1923

*NLW MSS* 5209-15, 5231-4, 6598, 6606-15 - rhif 6614 yn cynnwys ei linach

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734585](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

